


**EICH HAWL I APELIO**

Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod unrhyw bryder neu anghytundeb a all fod gan riant/gofalwr ynghylch penderfyniad neu gynnwys sy'n gysylltiedig â Chynllun Datblygu Unigol (CDU). Cysylltwch â'r Cydlynydd ADY - Darpariaeth Disgyblion a Rhieni drwy e-bost pps@ceredigion.gov.uk neu drwy ffonio 01545 570881 i drafod neu drefnu cyfarfod.

Lle byddwch yn parhau i fod a phryderon neu anghytundebau yn dilyn y cam cychwynnol o'u trafod â'r Cydlynydd ADY – Darpariaeth Disgyblion a Rhieni yna mae gennych yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, a hawliadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion. Mae penderfyniadau'r Tribiwnlys, sy'n annibynnol, yn rhwymo awdurdodau lleol a chyrff cyfrifol, ac mae'n rhaid iddynt ddilyn ei orchmynion.

Mae pennod 33 o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn cynnwys gwybodaeth am apeliadau a cheisiadau i Dribiwnlys Addysg Cymru.

Caiff plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc apelio i'r Tribiwnlys ynghylch:

- penderfyniad gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY;
- yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch a oes angen llunio a chynnal CDU;
- disgrifiad o ADY y person mewn CDU;
- Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol mewn CDU, neu'r ffaith bod Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol wedi'i hepgor o CDU, yn cynnwys a yw cynllun yn nodi y dylid darparu'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn Gymraeg;
- y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn CDU gan awdurdod lleol o dan adrannau 14(6) neu 19(4) neu'r ffaith nad yw darpariaeth o dan yr adrannau hynny mewn cynllun;
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben derbyn plentyn mewn sefydliad a enwir, neu os na enwir ysgol mewn CDU at ddiben derbyn;
- penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio ag adolygu CDU pan ofynnwyd i'r awdurdod lleol gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc ailystyried CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir;
- penderfyniad gan awdurdod lleol i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU, a gynhelir gan ysgol, pan ofynnwyd iddo wneud hynny gan blentyn neu ei riant, gan berson ifanc neu gan gorff llywodraethu'r ysgol honno;
- penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU;
- os gwrthodir penderfynu ar fater ar y sail nad oes newid sylweddol mewn anghenion neu nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan Tribiwnlys Addysg Cymru www.educationtribunal.gov.wales neu ffoniwch 0300 025 9800.

Os yw eich pryderon neu anghytundebau yn ymwneud â gwasanaeth Iechyd, bydd yr Awdurdod Lleol a'r Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) a benodir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio i geisio dod o hyd i ddatrysiad. Gallwch gysylltu hefyd â'r bwrdd iechyd yn uniongyrchol. I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella

***Ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ADY yng Ngheredigion:***
*Cysylltwch â'n Chydlynydd ADY -Darpariaeth Disgyblion a Rhieni ar **01545 570881** neu ymweld gyda'n wefan*
***www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/anghenion-dysgu-ychwanegol***

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council